# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Glenys Jones**

**Aberdyfi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 30 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Glenys Jones wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 8 o blant dan 12 oed yn ei chartref, ym mhentref Aberdyfi. Gall y plant ddefnyddio'r lolfa, y gegin/ystafell fwyta a'r ystafell ymolchi. Maent hefyd yn gallu defnyddio'r ardd gaeedig yng nghefn yr eiddo, ac mae'r gwarchodwr plant hefyd yn gwneud defnydd da o'r ardal o'u cwmpas. Caiff prydau bwyd a byrbrydau iachus eu darparu gan y gwarchodwr plant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 8:00am a 6:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth, a siaredir Cymraeg yn rheolaidd â'r plant. Ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth hwn yn gweithredu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn ffynnu. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'u cyfoedion. Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig ac mae ganddi ymagwedd ofalgar wrth ddarparu gofal. Mae'n defnyddio dulliau arloesol i annog rhyngweithio cadarnhaol, ac mae'n cynllunio gweithgareddau'n ofalus er mwyn i'r plant ddatblygu eu sgiliau unigol. Mae'r amgylchedd yn canolbwyntio ar y plentyn, ac mae gan y plant fynediad agored a dewis o ystod o weithgareddau diddorol a chyffrous, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth mewn ffordd broffesiynol ac mae'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'r plant a'u teuluoedd.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol, mae'r gwarchodwr plant wedi mynychu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi, er mwyn datblygu ei sgiliau, a chynnig profiadau gwahanol a diddorol i'r plant. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi ennill y dystysgrif arfer gorau 'Tiny Tums'.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â'r gweithdrefnau newid cewynnau a'r polisi diogelu plant.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant â'i gilydd. Maent yn llawn cymhelliant i wneud penderfyniadau am yr hyn yr hoffent ei wneud, ac maent yn hyderus i fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae'r plant wrth eu bodd â'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn chwilfrydig i archwilio eu hamgylchedd. Rhoddir ystod eang o gyfleoedd iddynt i ddysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod pob ymdrech i gyfathrebu yn cael sylw.

Roedd y plant yn hyderus i fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion i'r gwarchodwr plant, a rhoddwyd dewisiadau ar bob agwedd ar eu diwrnod. Er enghraifft, gofynnwyd iddynt pryd roeddent am gael eu byrbrydau a phryd roeddent am gysgu. Roedd y plant yn hyderus i fynd at y gwarchodwr plant i ofyn am weithgareddau. Er enghraifft, awgrymodd un plentyn ei fod yn dymuno tynnu llun. Gwnaeth y gwarchodwr plant ei gefnogi'n brydlon i fynd i nôl papur, creonau a sticeri er mwyn iddo allu creu rhywfaint o waith celf wrth y bwrdd yn y gegin. Roedd y gwarchodwr plant yn gwerthfawrogi pob ymdrech i gyfathrebu, wrth iddi ymateb i'r plant yn brydlon a blaenoriaethu hyn cyn cyflawni unrhyw dasg arall.

Mae'r plant yn hyderus i wneud dewisiadau, penderfyniadau a mynegi eu barn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel am eu bod yn cael gofal parhaus gan warchodwr plant sy'n eu hadnabod yn dda.

Roedd y plant wedi setlo, yn gyfforddus ac yn ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'i gilydd a'r gwarchodwr plant, ac roeddent yn sgwrsio ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus, gyda llawer o wenu a chwerthin. Roeddent wrth eu bodd yn dangos y gwaith crefft roeddent wedi ei greu yn ystod yr wythnos i'r gwarchodwr plant ac i ni, yn ogystal â ffotograffau ohonynt ar deithiau yn ddiweddar. Gwnaeth un plentyn sgwrsio'n hyderus â ni am ei lun, gan dynnu sylw at y sticer o bengwin roeddent wedi'i osod arno, ac yn sôn wrthym am y pengwin roedd ganddo adref. Aeth y plant at y gwarchodwr plant pan oeddent am gael cwtsh, ac roeddent yn gwybod i ofyn iddi a oedd angen cymorth neu sicrwydd arnynt. Er enghraifft, aeth un plentyn at y gwarchodwr plant i gael cwtsh ar ôl cinio pan oedd yn teimlo'n flinedig. Rhoddodd y gwarchodwr plant sicrwydd iddo a'i gysuro'n dyner, ac aeth y plentyn i gysgu'n gyflym.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, gan eu bod yn gwybod y byddant yn cael y cymorth a'r sicrwydd sydd eu hangen arnynt gan y gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn dechrau rhannu a chymryd eu tro yn briodol.

Roedd y plant yn cyd-chwarae'n hapus, gan rannu teganau a chymryd troeon. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn cael llawer o hwyl yn adeiladu tyrau â blociau mawr, ac yna'n eu dymchwel. Roeddent yn aros eu tro yn amyneddgar i osod blociau ar ben y tŵr ac yn bloeddio pan roedd eu ffrind yn ei ddymchwel. Yna, aethant ati i gosi ei gilydd, i wneud i'w gilydd a'r gwarchodwr plant biffian chwerthin. Roedd llawer o chwerthin a sgwrsio hapus yn dilyn wrth iddynt chwarae a rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd. Roedd y plant yn cydweithio'n dda ac yn barod i helpu â thasgau. Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt dacluso'r teganau cyn cinio, roedd y plant yn fodlon gwneud hynny. Roedd y plant yn dangos cwrteisi drwy gydol yr ymweliad a chawsant eu canmol am wneud hynny.

Mae'r plant wedi meithrin cyfeillgarwch â'u cyfoedion, maent yn cydweithio'n dda ac yn cyfathrebu'n gadarnhaol â'i gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn rhydd i archwilio'r amgylchedd, ac maent yn ymddiddori yn yr adnoddau a'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn frwd drostynt.

Roedd y plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac roeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae a oedd yn gyffrous ac yn ddiddorol iddynt, yn ystod ein hymweliad. Er enghraifft, roedd un plentyn wedi'i gyfareddu wrth arbrofi â'r toes chwarae Nadoligaidd. Gwnaeth arllwys blawd ar y toes chwarae i greu eira, gosod sticeri coed disglair arno, ei rolio â rholbrennau, ei dorri â siswrn a mwynhau creu golygfeydd Nadolig. Canolbwyntiodd ar y dasg hon am gyfnod hir, gan ei fod wedi ymgolli'n llwyr yn y gweithgaredd. Yn ddiweddarach, aeth y plant ati i greu rhywfaint o waith celf wrth y bwrdd yn y gegin. Canolbwyntiodd y ddau blentyn am gyfnod hir, wrth iddynt fwynhau gosod sticeri Nadolig ar eu lluniau, gan sgwrsio â'r gwarchodwr plant am yr hyn roeddent yn ei wneud a pha sticeri roeddent yn hoff ohonynt. Cyn cinio, roedd y ddau blentyn yn llawn cyffro i addurno'r goeden Nadolig fach a oedd wedi'i lleoli yng nghanol y lolfa gyda dewis o addurniadau Nadolig a thinsel. Roeddent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau'n dda wrth osod yr addurniadau ar y goeden, ac yn falch o'u hymdrechion wrth i'r gwarchodwr plant eu canmol.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael eu hannog i fod yn annibynnol, a rhoddir amser iddynt ddysgu sut i wneud pethau yn eu hamser eu hunain.

Gwelsom y plant yn arwain ac yn cyfarwyddo eu chwarae eu hunain, ac roeddent yn awyddus i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Cawsant eu cymell yn naturiol. Roeddent yn awyddus i wybod am eu hamgylchedd ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau a'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig. Roedd y plant yn cyflawni pob gweithgaredd ar eu cyflymder eu hunain, gyda'r gwarchodwr plant yn ymateb yn effeithiol i'w lefel o ddiddordeb a brwdfrydedd. Roedd y plant yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd rhan mewn tasgau. Roeddent yn helpu i dacluso ar ddiwedd y gweithgareddau, ac yn cyflawni tasgau hunangymorth, megis golchi eu dwylo. Rhoddir digon o amser i'r plant gyflawni tasgau'n annibynnol, ac ar eu cyflymder eu hunain; er enghraifft, bwydo eu hunain amser cinio.

Mae'r plant yn hyderus ac yn llawn cymhelliant am eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda, ac yn ymateb yn gyflym i'w hanghenion a'u hymdrechion i gyfathrebu mewn ffordd gynnes a charedig. Caiff ffyrdd iach o fyw a hylendid da eu hyrwyddo, a rhoddir digon o gyfleoedd i ymarfer corff a chwarae yn yr awyr agored. Caiff dulliau arloesol eu defnyddio i annog rhyngweithio cadarnhaol a dysgu'r plant i fod yn garedig i'w gilydd. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn ofalus, er mwyn helpu'r plant i ffynnu datblygu a dysgu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu ffordd iach o fyw ac yn sicrhau bod y plant mor ddiogel ac mor iach â phosibl.

Yn ystod trafodaethau â'r gwarchodwr plant, roedd yn amlwg ei bod yn deall sut i amddiffyn y plant ac yn deall gweithdrefnau diogelu yn dda, yr oedd wedi cwblhau hyfforddiant arnynt. Hefyd, roedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig, a oedd yn golygu ei bod yn gwybod sut i roi cymorth cyntaf sylfaenol yn ôl yr angen a sut i ddelio ag achosion brys. Roedd y cofnodion yn dangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a oedd yn golygu bod y plant yn ymwybodol o'r hyn i'w wneud pe bai angen iddynt adael y safle mewn argyfwng. Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo hylendid da drwy annog y plant i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd ac ar ôl defnyddio'r toiled. Wrth newid cewynnau, roedd y gwarchodwr plant yn defnyddio menig untro a rhoddodd orchudd untro ar y mat newid, ond ni ddefnyddiodd ffedog untro. Gwnaethom drafod hyn â'r gwarchodwr plant a'i chynghori i adolygu canllaw Iechyd Cyhoeddus (2014), er mwyn sicrhau y caiff gweithdrefnau golchi dwylo a newid cewynnau eu dilyn yn gywir.

Roedd dŵr yfed ar gael i'r plant drwy'r dydd. Gwelsom gynlluniau bwyd a oedd yn cynnwys amrywiaeth o brydau bwyd iachus a chytbwys. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn ceisio annog y plant a oedd yn ffwdanus ynghylch eu bwyd i roi cynnig ar bethau newydd drwy osod ychydig o lysiau a gwahanol fwydydd ar blatiau'r plant. Gwelsom y gwnaed hyn mewn ffordd ofalus, cadarnhaol ac anogol iawn, ac felly roedd amseroedd prydau bwyd yn brofiad cadarnhaol i'r plant. Rhoddwyd digon o gyfleoedd i'r plant ymarfer corff, ac roeddent yn chwarae yn yr ardd, yn mynd am dro ac ar deithiau'n gyson, er mwyn iddynt dreulio amser yn yr awyr iach. Cadarnhawyd hyn yn ystod trafodaethau â'r plant, yn y dyddiaduron dyddiol a'r ffotograffau a welsom.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i wneud dewisiadau iach ac wedi rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau eu diogelwch.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn ei gofal, ac mae'n dangos ymddygiad da ac yn defnyddio iaith briodol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthynas agos â'r plant. Siaradodd mewn ffordd gyfeillgar a digynnwrf, gan ddangos cynhesrwydd ac agosatrwydd gwirioneddol. Roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant ac yn datblygu eu hunan-barch. Roedd y gwarchodwr plant yn esbonio'n ofalus beth fyddai'n digwydd nesaf yn ystod y dydd, a rhoddodd rybuddion ychydig funudau cyn i'r gweithgareddau ddod i ben. Gwnaeth hyn leihau rhwystredigaeth y plant, gan eu bod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir a'r hyn y byddent yn mynd i'w wneud nesaf. Roedd y polisi rheoli ymddygiad yn disgrifio sut yr ymdrinnir ag ymddygiad amhriodol. Cadarnhawyd hyn hefyd yn ystod trafodaeth â'r gwarchodwr plant. Cafodd y plant eu hatgoffa'n dawel pan roedd eu hymddygiad yn amhriodol, ac roedd y gwarchodwr plant yn dangos ymddygiad cadarnhaol ac yn helpu'r plant i ddysgu'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Clywsom ddigon o ganmoliaeth yn cael ei rhoi drwy gydol y diwrnod am ymddygiad da, cwblhau gweithgareddau a rhoi cynnig ar bethau newydd. Dangosodd y gwarchodwr plant i ni sut roedd hi a rhai o'r plant hŷn wedi llunio '*Glennie's house rules*', a oedd wedi'u harddangos ar wal y gegin. Roedd y rhain yn cynnwys datganiadau syml yn amlinellu'r ffyrdd y disgwylir i'r plant ryngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, er enghraifft, '*we share with our friends'* ac '*we say please and thank you'.* Roedd y gwarchodwr plant hefyd wedi cyflwyno gweithgaredd *'12 days of Christmas kindness'* i'r plant gyflawni heriau a oedd yn eu hannog i fod yn garedig tuag at eraill, er enghraifft tynnu llun i'w roi i rywun, dweud diolch, chwarae gyda rhywun newydd a helpu rhywun. Roedd y gwarchodwr plant a'r plant yn awyddus i ddweud wrthym eu bod wedi mynd i'r archfarchnad i brynu bwyd ar gyfer y banc bwyd lleol fel rhan o'r gweithgaredd hwn.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i ryngweithio'n briodol a dangos cwrteisi, gan ddefnyddio dulliau rheoli ymddygiad cadarnhaol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd meithringar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant.

Cynlluniwyd y gweithgareddau'n ofalus er mwyn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a fyddai'n eu helpu i ffynnu a gwella eu dysgu. Roedd amrywiaeth o weithgareddau wedi'u gosod i'r plant symud yn ddirwystr rhyngddynt, ac roedd ystod dda o weithgareddau synhwyraidd, crefft, dan do ac awyr agored ar gael. Roedd y gwarchodwr plant yn gyfarwydd â diddordebau pob plentyn a gallai awgrymu gweithgareddau'n briodol. Gofynnodd lawer o gwestiynau yn ystod gweithgareddau i ddatblygu gwybodaeth y plant, ac roedd yn eu hannog i ddatblygu eu sgiliau iaith. Er enghraifft, yn ystod y gweithgaredd crefft, gwnaeth y gwarchodwr plant annog y plant i ddefnyddio gwahanol adnoddau a geiriau disgrifiadol i ddisgrifio'r hyn roeddent yn ei wneud. Cafodd y plant iau eu hannog i gyfrif yn Gymraeg ac i enwi siapiau a lliwiau.

Roedd y gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau rheolaidd ar bob un o'r plant iau. Roedd y rhain yn cael eu cwblhau drwy ddefnyddio tracwyr datblygu'r cyfnod sylfaen ac yn cael eu rhannu â'r rhieni yn nyddiaduron y plant. Roedd y plant hefyd yn cael eu hannog i ymarfer

sgiliau unigol, ac roedd eu camau nesaf ar gyfer dysgu wedi'u harddangos ar yr hysbysfwrdd i'w hannog i ymarfer sgiliau penodol. Cedwir llyfrau lloffion a oedd yn cynnwys samplau o waith y plant a ffotograffau o deithiau a gweithgareddau. Anfonwyd y rhain gartref pan oeddent yn llawn, er mwyn i'r plant rannu eu cyflawniadau â'u rhieni. Roedd gan y plant hŷn, a oedd yn mynychu ar ôl ysgol, eu halbymau ffotograffau eu hunain, lle gallent osod ffotograffau o'u dewis sy'n eu dangos yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn mynd ar deithiau. .

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac mae'n cynllunio gweithgareddau'n ofalus yn ôl anghenion unigol a cham datblygu'r plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gofal mewn amgylchedd glân a chyfforddus. Mae'n sicrhau bod gan y plant fynediad i amrywiaeth o ardaloedd difyr dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac yn briodol i anghenion y plant. Nodir risgiau a rhoddir mesurau effeithiol ar waith i reoli neu ddileu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel lle mae plant yn gallu chwarae ac archwilio ardaloedd gwahanol yn ddiogel.

Roedd y safle'n ddiogel; roedd ffens o amgylch yr ardaloedd awyr agored ac roedd y drws ffrynt wedi'i gloi er mwyn atal mynediad diawdurdod. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel mewn argyfwng. Er enghraifft, roedd cofnodion cywir o bresenoldeb dyddiol, sy'n golygu ei bod yn gwybod pwy oedd yn bresennol pe byddai angen gadael y safle'n gyflym. Roedd teganau ac ardaloedd yn cael eu gwirio bob dydd i nodi unrhyw beryglon i ddiogelwch plant; roedd y gwarchodwr plant wedi llunio rhestr wirio o bethau y dylid eu hadolygu bob dydd, ac yn cadw cofnod bob tro y gwnaed hyn. Roedd y gwarchodwr plant wedi nodi risgiau yn yr adeilad, ac roedd y rhain yn cael eu cynnwys mewn asesiadau risg ysgrifenedig, gan ddangos sut y cafodd y rhain eu rheoli, a lle y bo'n bosibl, eu dileu. Adolygwyd yr asesiadau risg hyn yn rheolaidd, gan sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

Mae diogelwch y plant yn cael ei flaenoriaethu, ac mae mesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu lleihau.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd glân, cyfforddus, sydd mewn cyflwr da.

Roedd yr eiddo wedi'i addurno'n dda, yn olau ac yn groesawgar. Gallai'r plant ddefnyddio'r lolfa fawr lle roedd digon o le iddynt symud o gwmpas a chwarae. Hefyd, gallai'r plant ddefnyddio'r bwrdd bwyd mawr yn y gegin ar gyfer gweithgareddau crefft neu gemau bwrdd. Roedd samplau o waith y plant wedi'u harddangos yn falch ar hysbysfwrdd yn y gegin, gan roi ymdeimlad o berthyn i'r plant.

Roedd teganau yn cael eu storio'n briodol, yn drefnus iawn ac yn hawdd cael gafael arnynt er mwyn i'r plant ddewis ohonynt yn ddidrafferth fel y dymunent. Roedd y bocsys wedi'u labelu'n glir gyda ffotograffau a geiriau, er mwyn i'r plant allu adnabod beth oedd yn cael ei storio ym mhob blwch yn hawdd, gan helpu annibyniaeth. Roedd yr ardal awyr agored hefyd yn daclus ac yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau i'r plant eu mwynhau. Roedd y gwarchodwr plant wedi gosod raciau yn y gegin ac yn yr ardal chwarae awyr

agored, a oedd yn cynnwys bwcedi llawn deunyddiau crefft er mwyn i'r plant helpu eu hunain iddynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch cartrefol ac yn sicrhau bod gan y plant fynediad i amrywiaeth o ardaloedd chwarae croesawgar a diddorol i hybu eu mwynhad.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gallu defnyddio ystod eang o ddeunyddiau addas sydd o ansawdd da i wella eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd amrywiaeth o deganau awyr agored ar gael yn yr ardal batio, gan gynnwys llithren, cegin fwd, teganau reidio, ac ystod o ddeunyddiau naturiol a deunyddiau wedi'u hailgylchu i'r plant eu harchwilio. Roedd y teganau awyr agored yn cael eu storio mewn sied, a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y teganau'n cael eu newid yn rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb y plant yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Roedd grisiau ar gael yn y gegin a'r ystafell ymolchi i hyrwyddo annibyniaeth y plant, ac roedd sedd doiled a photiau ar gael i'r plant yn yr ystafell ymolchi i helpu gyda hyfforddiant mynd i'r toiled. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y teganau'n cael eu glanhau'n rheolaidd â chlytiau neu chwistrell gwrthfacterol, ac roedd y cofnodion a welsom yn dangos fod hyn yn digwydd yn gyson.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar deganau a deunyddiau cyffrous sy'n ddiddorol iddynt, ac sy'n gwella eu chwarae a'u dysgu.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth gydag ymrwymiad ac ymroddiad. Rheolir adnoddau yn dda ac mae systemau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae partneriaethau da wedi'u meithrin rhwng y rhieni, ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac yn ymrwymedig i roi'r gofal gorau posibl i'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant wedi paratoi datganiad o ddiben cynhwysfawr a oedd yn rhoi disgrifiad clir o'r gwasanaeth a ddarperir, ac yn rhoi'r holl wybodaeth roedd ei hangen ar y rhieni i benderfynu a allai'r gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer pob agwedd berthnasol ar redeg y gwasanaeth. Roedd y rhain yn gynhwysfawr ac yn darparu llawer o wybodaeth i'r rhieni am bob agwedd ar redeg y gwasanaeth. Gwnaethom atgoffa'r gwarchodwr plant fod angen cynnwys manylion cyswllt tîm diogelu plant yr awdurdod lleol yn y polisi diogelu. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofrestr o bresenoldeb y plant bob dydd yn cynnwys eu hamseroedd cyrraedd a gadael. Gwelsom o gofnodion ysgrifenedig fod y gwarchodwr plant wedi gofyn i'r rhieni lenwi ffurflenni cofrestru a chontractau cyn i'w plentyn ddechrau. Roedd y rhieni hefyd wedi llofnodi slipiau caniatâd ar gyfer sawl agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir i'r plant, gan gynnwys ar gyfer teithiau, rhoi meddyginiaeth, cymorth cyntaf ac eli haul. Roedd ffeiliau'r plant hefyd yn cynnwys manylion am eu hoff a chas bethau, a'u trefn ddyddiol arferol.

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus iawn ac yn rhedeg y gwasanaeth yn dda.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau i adolygu ansawdd ei gwasanaeth, ac mae'n gwneud newidiadau er mwyn gwella ei harferion.

Mae'r gwarchodwr plant yn monitro ei gwasanaeth ac yn gwneud gwelliannau drwy gasglu adborth o holiaduron a anfonwyd at y rhieni bob blwyddyn er mwyn iddynt allu rhannu eu safbwyntiau. Hefyd, dangosodd y gwarchodwr plant i ni ei bod wedi gosod bwrdd du yn y cyntedd lle gallai'r rhieni nodi unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu holi cwestiynau pryd bynnag y dymunent. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod hefyd yn ceisio barn y plant am y gwasanaeth drwy adborth ar lafar a chynnal trafodaethau. Cafodd yr adborth hwn ei gasglu a'i ddefnyddio i lunio adroddiad a oedd yn amlinellu crynodeb o'r adborth a chynllun gweithredu ar gyfer unrhyw welliannau a gynllunnir mewn ymateb i hynny.

Mae'r gwarchodwr plant yn fyfyriol ac yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd gan y rhieni a'u plant i wella ei gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau'n dda ac yn sicrhau ei bod yn darparu gwasanaeth da.

Roedd yr adnoddau o ansawdd da ac yn briodol i'r plant a oedd yn eu defnyddio. Roedd amrywiaeth o deganau, gemau ac adnoddau ar gael i'r plant, ac roeddent yn gallu eu defnyddio fel y dymunent. Roedd gwiriadau'r holl oedolion a oedd yn byw ar y safle gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Caiff dogfennau eu ffeilio'n ddiogel ac yn gyfrinachol, ond roedd yn hawdd cael gafael arnynt. Gwelwyd tystiolaeth ar ffeil hefyd fod y gwarchodwr plant wedi mynychu llawer o gyrsiau hyfforddiant er mwyn ymgyfarwyddo â'r arfer gorau presennol a'r datblygiadau diweddaraf ym maes gofal plant, er enghraifft cwrs 'Time for transitions' Pacey.

Mae'r plant yn elwa ar wasanaeth lle caiff adnoddau eu rheoli a chaiff gwiriadau eu cwblhau fel y bo'n briodol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn mwynhau cysylltiadau da â'r gymuned ac yn cael cyfleoedd i gymdeithasu â phlant eraill sy'n byw gerllaw.

Roedd y gwarchodwr plant yn hawdd mynd ati a dywedodd wrthym ei bod wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â'r rhieni. Gwelsom sut roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r rhieni yn nyddiaduron dyddiol y plant er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf am ba weithgareddau y mae eu plentyn wedi cymryd rhan ynddynt, beth roeddent wedi'i fwyta a'u hwyliau yn gyffredinol. Roedd ffotograffau a gwybodaeth ddatblygiadol hefyd yn cael eu rhannu'n rheolaidd yn y dyddiaduron hyn. Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod yn mynd i grwpiau chwarae lleol yn rheolaidd, lle mae hi a'r plant yn cadw cysylltiad yn rheolaidd â'r rhieni a'r plant a oedd yn byw yn y gymuned leol. Roedd hefyd wedi meithrin cydberthnasau da â gwarchodwyr plant eraill yn yr ardal, yr oedd y gwarchodwr plant yn cwrdd â nhw'n rheolaidd, felly gallai'r plant gymdeithasu â phlant eraill. Dywedodd wrthym hefyd am ddigwyddiad arbennig roeddent wedi'i drefnu gyda'i gilydd yn ystod yr haf diwethaf, lle roedd arddangosfa ddeinosoriaid rhyngweithiol wedi ymweld â'r pentref, ar gyfer y plant sy'n mynychu gwasanaethau gofal plant lleol.

Mae gan y gwarchodwr plant gysylltiadau da â'r gymuned ac mae wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion arfer da canlynol i'r gwarchodwr plant eu hystyried:

- Sicrhau ei bod yn dilyn y weithdrefn newid cewynnau cywir a nodir yn *Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Gosodiadau Gofal Plant (0-5 oed), Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Grwpiau Chwarae: Iechyd Cyhoeddus Cymru - Canllaw Cymru Gyfan;*
- cynnwys manylion cyswllt bwrdd diogelu plant yr awdurdod lleol ym mholisi diogelu'r gwasanaeth.

## 6. 1. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 13 Rhagfyr 2018, rhwng 10:30 a.m. a 2:00 p.m.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a gwneud sylwadau er mwyn casglu tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y gwarchodwr plant;
- siarad â'r plant a'r gwarchodwr plant, a gadael holiaduron i'r rhieni;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad, a
- rhoi adborth manwl i'r gwarchodwr plant ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion i fynd i'r afael â nhw.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Glenys Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **8** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis – 12 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 8:00 a.m. a 6:00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **14 Medi 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **13 Rhagfyr 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ond mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |